# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Gorffennaf 2023

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

**Caiff y cyfarfod hwn ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**(Rhag-gyfarfod preifat)**

(09:00 - 09:15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09:15)

## 2 Papurau i'w nodi

(09:15 - 09:25)

**2.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gapasiti'r gwasanaeth sifil** (Tudalennau 1 - 3)

**2.2 Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar Adfywio Canol Trefi** (Tudalennau 4 - 10)

**2.3 Llythyr gan yr Ysgrifenydd Parhaol i Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol waith Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** (Tudalennau 11 - 16)

**2.4 Llythyr gan Lywodraeth Cymru ar Fferm Gilestone** (Tudalennau 17 - 18)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Rheol Sefydlog 17.42 ix ar gyfer eitemau 4,7,8 a 9.

Rheol Sefydlog 17.42 vii ar gyfer eitem 6.

## 4 Adroddiad ddrafft – Craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru: 2021–22

(09:25 – 09:50) (Tudalennau 19 – 79)

### (Egwyl)

(09:50 – 10:00)

## 5 Fferm Gilestone: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

(10:00 – 11:00) (Tudalennau 80 – 100)

- Andrew Slade – Cyfarwyddwr Cyffredinol – Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad
- Jason Thomas – Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
- Gerwyn Evans – Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol
- Tim Howard – Dirprwy Gyfarwyddwr Eiddo

### (Egwyl)

(11:00 – 11:10)

## 6 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Sesiwn dystiolaeth preifat

(11:10 – 12:10) (Tudalennau 101 – 110)

- Carol Shillabeer – Prif Weithredwr dros dro
- Dyfed Edwards – Cadeirydd

## 7 Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

(12:10 – 12:15)

## 8 Betsi Cadwaladr University Health Board: Consideration of the evidence received

(12:15 – 12:25)

## 9 Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Ystyried llythyr ddrafft i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

(12:25 – 12:30) (Tudalennau 111 – 117)

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

22 Mehefin 2023

**Capasiti'r gwasanaeth sifil**

Annwyl Mark,

Yn ddiweddar rydym wedi cynnal cyfres o ddarnau o waith sy'n ymwneud â phortffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i dirprwyon. Mae pob darn o'r gwaith hwnnw wedi tynnu sylw at bryderon am gapasiti'r gwasanaeth sifil yn yr adran benodol honno yn Llywodraeth Cymru, fel y nodir isod.

## Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

Credwn y gallai capasiti'r gwasanaeth sifil yn adran y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn ei gwneud yn heriol i'r Gweinidog a'i dirprwyon ddarparu'r manylion ac ansawdd y dystiolaeth ysgrifenedig sydd eu hangen arnom i gynnal gwaith craffu effeithiol o fewn amserlenni tynn y Gyllideb. Nodwn ein pryderon yn fanylach yn ein llythyr at y Pwyllgor Cyllid dyddiedig 25 Mai 2023.

## Ymchwiliad i ddiwygio radical o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

Yn ei Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i "ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal." Fodd bynnag, gwnaethom lansio ein hymchwiliad ym mis Gorffennaf 2022 oherwydd, ar yr adeg honno yn y Senedd, ni chafwyd ond ychydig iawn o eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch beth oedd ystyried diwygio radical yn ei olygu yn ymarferol.

Yn ystod ein hymchwiliad, gwelsom nad oedd prinder ymrwymiad i ddiwygio radical ar ran y Dirprwy Weinidog nac yn wir ar ran y Prif Weinidog (sydd wedi gwneud ymrwymiadau personol i leihau nifer y plant mewn gofal). Canfuom hefyd fod cefnogaeth eang ymysg rhanddeiliaid a phlant a phobl ifanc eu hunain ar gyfer diwygio radical, a bod llawer o syniadau uchelgeisiol ac argyhoeddiadol sy'n



Senedd Cymru
Welsh Parliament

seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer sut y gallai'r diwygio radical hwnnw edrych. Roedd y syniadau hynny'n cyfrannu i'n hadroddiad, sy'n nodi cynigion ar gyfer 12 o ddiwygiadau radical a chyfres o welliannau posibl eraill i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae'r hyn a glywsom gan rai rhanddeiliaid yn ystod ein hymchwiliad yn awgrymu nad yw cyflymder datblygu a gweithredu polisi ar lefel y gwasanaeth sifil yn cymharu ag ymrwymiad gwleidyddol i ddiwygio radical ar lefel weinidogol. Mae rhai o'r enghreifftiau polisi y cawsom dystiolaeth yn eu cylch wedi awgrymu bod hyn, yn rhannol o leiaf, oherwydd capasiti annigonol. Gan edrych tua'r dyfodol, mae gennym bryder y gallai diffyg capasiti yn y gwasanaeth sifil lesteirio parodrwydd a gallu Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'n cynigion.

## Ein hymholiadau ynghylch creu gwasanaeth cwnsela cenedlaethol i blant

Ar 29 Ionawr, ysgrifennais i a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Cawsom ymateb ar 5 Ebrill, ac fe'i trafodwyd gennym ar 3 Mai.

Testun pryder i ni yw'r ffaith i'r Dirprwy Weinidog ddweud yn yr ymateb hwnnw fod toreth yr ohebiaeth yn achosi oedi i'w hamseroedd ymateb. Fel y gwyddoch, yr arfer cytunedig yw i Lywodraeth Cymru ymateb i'n gohebiaeth o fewn 6 wythnos. Mae ymatebion amserol i geisiadau Pwyllgorau am wybodaeth yn hanfodol i ni allu cyflawni ein gwaith craffu yn effeithiol. Rydym yn cydnabod bod ymateb i ohebiaeth y Pwyllgor yn cymryd amser ac nad yw ond yn rhan fechan o ddyletswyddau swyddogion Llywodraeth Cymru. Serch hynny, rydym yn pryderu y gallai cyfyngiadau ar gapasiti'r gwasanaeth sifil effeithio'n negyddol ar ein gallu i graffu'n briodol ar adrannau'r Llywodraeth.

Deallaf fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn craffu ar gyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru, a bod ystyried capasiti gweithlu Llywodraeth Cymru yn rhan o'r gwaith craffu hwn. Rwy'n mawr obeithio y gall y wybodaeth fwydo i mewn i'r broses graffu honno, a'i bod yn eich cefnogi yn y gwaith pwysig hwnnw.

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach am unrhyw un o'r materion uchod, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor. Fel arall, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'm Pwyllgor am unrhyw gasgliadau neu argymhellion y byddwch yn dod iddynt sy'n ymwneud â'r materion a godwyd yn y llythyr hwn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Climate Change and Rural Affairs Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

15 Mehefin 2023

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Mai 2023, yn dilyn ein presenoldeb yn sesiwn dystiolaeth cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 18 Mai 2023. Ysgrifennaf atoch i ymateb gyda'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani.

**A yw cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio canol trefi, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn ddigon syml ac wedi canolbwyntio ar y materion iawn.**

Cyn y rhaglen Trawsnewid Trefi, roedd amrywiaeth o wahanol ffrydiau cyllido ar gael a oedd, mewn sawl ffordd, yn cynnwys yr un allbynnau ac amcanion. Roedd yn annog rhanddeiliaid i dargedu cyllid penodol yn hytrach na chanolbwyntio ar adfywio lleoedd yn ehangach. Rydym bellach wedi symleiddio ein cyllid adfywio drwy'r rhaglen Trawsnewid Trefi yn ogystal â gwneud dyraniadau cyllid tair blynedd i awdurdodau lleol, gan ganiatáu iddynt gynllunio'n fwy strategol.

Mae Trawsnewid Trefi yn becyn cymorth cydlynol ond hyblyg. Mae sut mae'n cael ei ddefnyddio yn cael ei lywio gan awdurdodau lleol, gyda goruchwyliaeth gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i bob prosiect ac ymyriad a gefnogir gan y Rhaglen fod yn seiliedig ar gynllun creu lleoedd neu gyfrannu ato. Fan leiaf, bydd cynlluniau creu lleoedd yn nodi amodau presennol tref, yn creu ac yn meithrin diddordeb a chyfranogiad y gymuned, yn creu gweledigaeth newydd a chyffredin ar gyfer dyfodol y dref ac yn datblygu set glir a chadarn o argymhellion a strategaeth weithredu.

Mae awdurdodau lleol yn cefnogi trefi unigol drwy nodi'r cymysgedd o ymyriadau sy'n gweddu orau i'w materion penodol, eu nodweddion, eu cryfderau, eu diwylliant a'u treftadaeth leol, gan gynnwys:



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Cefnogaeth i bartneriaid cyflenwi lleol ddatblygu cynlluniau creu lleoedd i alluogi datblygu prosiectau, yn gysylltiedig ag ymyriadau eraill yn y lle hwnnw.
- Cymryd camau gorfodi ar eiddo gwag.
- Cyllid benthyciadau a grantiau i ailddefnyddio adeiladau masnachol gwag a rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol.
- Cyllid grant ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd.
- Cyllid grant ar gyfer ymyriadau 'creu lleoedd' ar raddfa lai.
- Benthyciadau a chyllid grant ar gyfer prosiectau adeiladu newydd.

**A yw 'Cronfa Ffyniant Bro' a 'Chronfa Ffyniant Gyffredin' Llywodraeth y DU yn cyd-fynd â'r camau gweithredu a nodir yn eich datganiad sefyllfa Canol Trefi.**

Mae heriau ymarferol wedi codi o ran cysoni ein gweithgareddau adfywio canol trefi â chynlluniau cyllido'r DU sydd y tu hwnt i'n strwythurau llywodraethu buddsoddi ein hunain. Nid yw Cronfa Ffyniant Bro a Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn ymwneud â chanol trefi yn unig, ond drwy Gynlluniau Buddsoddi Rhanbarthol, mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi cydnabod y potensial am alinio cryf rhwng y ddwy gronfa hon a'n hagenda Trawsnewid Trefi. Gallai'r aliniad posibl hwn, yn ei dro, gefnogi camau gweithredu yn y datganiad sefyllfa gan fod nifer yn cael eu hategu gan y rhaglen Trawsnewid Trefi.

**Pa gyfleoedd a risgiau posibl a gyflwynir gan awdurdodau lleol sy'n gallu sicrhau cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer adfywio canol trefi drwy'r Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.**

Ym mis Hydref 2022, amlinellodd Gweinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol safbwynt Llywodraeth Cymru ar arian cyfatebol wrth ddelio â phrosiectau sy'n cael eu cefnogi gan gronfeydd y DU fel y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Roedd y llythyr yn nodi, os oes achos cryf, y gellid ystyried cyllid cyfatebol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau, ar yr amod bod y prosiect yn bodloni'r fframwaith egwyddorion craidd ac yn amodol ar gymeradwyaeth yr holl Weinidogion perthnasol.

Bydd cyfleoedd i ganol trefi'n bodoli os bydd buddsoddiad y Gronfa Ffyniant Gyffredin neu'r Gronfa Ffyniant Bro yn cyd-fynd â pholisïau adfywio Llywodraeth Cymru.

Y gyfradd ymyrraeth uchaf ar gyfer Cyllid Datblygu Trawsnewid Trefi (refeniw a chyfalaf) yw 70%. Felly, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyfrannu o leiaf 30% tuag at brosiectau adfywio. Mae canolbwyntio ar ganol trefi ac adfer ymdeimlad o gymuned yn un o'r nodau a nodir ym Mil Ffyniant Bro Llywodraeth y DU. Felly, mae awdurdodau lleol yn edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio arian cyfatebol a sicrhawyd drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin fel eu cyfraniad o 30% at brosiectau Trawsnewid Trefi.

Ni allwn ddylanwadu'n uniongyrchol ar y penderfyniadau a wneir gyda chyllid Llywodraeth y DU, yn hytrach, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod cynlluniau creu lleoedd ar waith sy'n gallu bod yn sail i fuddsoddi beth bynnag fo'r ffrwd gyllido. Wrth gwrs, mae risg pan nad yw prosesau'n cyd-fynd â'r ffaith bod straen sylweddol yn cael ei roi ar staff a chapasiti wrth baratoi ceisiadau'r Gronfa Ffyniant Bro.

Mae cyflawni prosiectau llwyddiannus hefyd yn debygol o fod yn heriol o ystyried amserlenni, adnoddau a phwysau chwyddiant. Er enghraifft, mae disgwyl i brosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro ddod i ben ym mis Rhagfyr 2024 ac mae'n rhaid cwblhau'r cyllid erbyn

31 Mawrth 2025 (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol). Gallai hyn arwain at risgiau i brosiectau strategol lle gallai cyllid tymor hwy ddod â gwerth ac etifeddiaeth fwy parhaol.

**A yw'r ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf am adfywio canol trefi yng Nghymru mewn sefyllfa dda i ddatblygu cynigion a chynigion buddsoddi i sicrhau eu bod yn elwa o gyllid gan lywodraeth y DU.**

Mae'r cymorth rydym yn ei ddarparu yn cael ei gynnig i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Awdurdodau lleol sy'n penderfynu pa ardaloedd sydd angen buddsoddiad adfywio, ac mae cynlluniau creu lleoedd yn sail i hyn. Mae'r cynlluniau a'u strwythurau llywodraethu yn dwyn ynghyd amcanion polisi mewn ffordd gydweithredol, gan weithio ar draws awdurdodau a'r llywodraeth i fanteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad o wahanol ffrydiau cyllido a rhaglenni sy'n "benodol i leoedd".

Mae'r gwaith o gyflawni cynllun creu lleoedd yn cael ei oruchwylio gan strwythur llywodraethu cadarn gyda chynrychiolwyr o bob Awdurdod, Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill. Gall y dull gweithredu hwn, a gweithio'n agos gyda phartneriaid awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, gyflawni cynlluniau ledled Cymru a chefnogi awdurdodau lleol i wneud achosion buddsoddi cryf o nifer o ffynonellau. Rydym eisoes yn galluogi awdurdodau lleol i rannu a defnyddio arferion gorau wrth gyflwyno cynlluniau creu lleoedd gyda chymorth arbenigol gan Gomisiwn Dylunio Cymru. Wrth wneud hynny, rydym yn sicrhau bod prosiectau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â ffynonellau buddsoddi eraill, yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor trefi a'r cymunedau sy'n dibynnu arnynt.

**Pa effaith gadarnhaol y mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'i chael hyd yma o ran galluogi ac annog adfywio trefi.**

O 30 Mehefin 2022 ymlaen, daeth y Cyd-bwyllgorau Corfforedig o dan ddyletswydd i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Bydd paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn galluogi dull mwy cyson, cost-effeithiol ac effeithlon o gynllunio. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn sicrhau canlyniadau cynllunio mwy effeithiol i gymunedau drwy sicrhau bod materion allweddol, datblygiad a seilwaith cysylltiedig yn cael eu cynllunio mewn ffordd integredig a chynhwysfawr ar draws ardal ddaearyddol ehangach.

Fel y nodir yn y datganiad sefyllfa Canol Trefi, rydym ar hyn o bryd yn paratoi canllawiau i gefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i baratoi cynlluniau sy'n rhoi cyfle i sicrhau bod Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ystyried cynlluniau creu lleoedd ehangach a pholisi Canol Trefi yn Gyntaf.

**A fydd y gofyniad i weithio'n rhanbarthol drwy Gyd-bwyllgorau Corfforedig, Bargeinion Dinesig a phartneriaethau Rhanbarthol yn helpu i adfywio trefi ledled Cymru o ystyried yr heriau o ran adnoddau sy'n wynebu awdurdodau lleol, sydd heb ddigon o gapasiti.**

Disgwylir y bydd cyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn parhau i ddatblygu'r cydweithio ar draws awdurdodau lleol a allai helpu i oresgyn rhai o'r heriau o ran adnoddau a wynebir.

Mae'r pedwar Bargen Ddinesig a Thwf yng Nghymru yn adlewyrchu'r ymdrech bresennol i weithio'n agos gyda'r partneriaid cyflawni rhanbarthol i gyflawni buddsoddiad trawsnewidiol ledled Cymru i ddarparu swyddi a chymunedau a threfi medrus cynaliadwy ledled Cymru.

Mae'r Bargeinion Dinesig a Thwf wedi cyflwyno diwylliant o weithio ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol traddodiadol gyda rhai swyddogion yn arwain ar brosiectau y tu allan i ardal eu Hawdurdod Lleol dynodedig.

Er enghraifft, mae Bargen Twf Canolbarth Cymru yn rhan o strategaeth ehangach ar gyfer y rhanbarth, lle mae Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, a ddyluniwyd ar y cyd â phartneriaid allweddol mewn Awdurdodau Lleol, yn amlinellu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer economi'r canolbarth. Gallant sicrhau mwy o gysondeb ac integreiddio mewn gweithgarwch lle mae ein dull gweithredu ar gyfer llesiant economaidd yn seiliedig ar yr egwyddor bod lleoedd yn bwysig.

Mae Portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi cael ei ddylunio i ategu ac ychwanegu gwerth at yr amrywiaeth o fentrau presennol sydd ar waith yn y rhanbarth. Mae'n cyfeirio'n benodol yn ei Achos Strategol at Bolisi Canol Trefi Llywodraeth Cymru i sicrhau mai canol trefi yw'r ystyriaeth gyntaf ar gyfer pob penderfyniad ar leoliad gweithleoedd a gwasanaethau.

Mae partneriaid rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd rôl a swyddogaeth esblygol trefi marchnad ac arfordirol y rhanbarth – Mae Gweledigaeth Partneriaethau Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru a'r Cynllun Economaidd Strategol yn tynnu sylw at bwysigrwydd 'lle', lle mae cysylltiad annatod rhwng ei threfi a chyfoeth asedau naturiol eithriadol y rhanbarth, sectorau allweddol fel twristiaeth a'r economi sylfaenol ehangach, yn ogystal â threftadaeth gyfoethog, diwylliant a nodweddion iaith Gymraeg y rhanbarth.

**Pa wersi cyffredinol y gallai Llywodraeth Cymru eu dysgu o ddulliau gweithredu mewn rhannau eraill o'r DU neu'r tu hwnt.**

Mae canol trefi'n wynebu heriau cymhleth sydd weithiau'n unigryw i leoedd penodol. Nid oes un ateb unigol i'r problemau hynny.

Wrth sefydlu'r Grŵp Gweithredu Gweinidogol Canol Trefi, sicrhawyd aelodaeth gan bobl a sefydliadau y tu allan i Gymru, gan gynnwys Phil Prentice, Prif Swyddog Partneriaeth Trefi'r Alban a Peter Williams, Cyfarwyddwr The Means, ymgynghoriaeth creu lleoedd ledled y DU. Roedd hyn yn helpu i ddarparu persbectif gwahanol i'r heriau, y materion a'r atebion posibl. Clywsom am y profiadau yn yr Alban a oedd yn sail i syniadau'r grŵp.

Mae cynlluniau creu lleoedd (a ddefnyddir ledled y DU) bellach wedi'u gwreiddio yn ein Rhaglen Trawsnewid Trefi ac, yn wir, maent yn sail i amrywiaeth o fuddsoddiadau. Mae dysgu ac arferion gorau o bob sector yn weithgaredd parhaus ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu yn Natganiad Safbwynt Canol Trefi.

Rydych hefyd wedi gofyn am yr wybodaeth ychwanegol ganlynol, yr ydym wedi ymrwymo i'w darparu yn ystod y cyfarfod.

**Nodyn yn crynhoi'r grwpiau allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda nhw ar adfywio canol trefi, gan gynnwys is-grwpiau a grwpiau rhanbarthol.**

Sefydlwyd y Grŵp Gweithredu Gweinidogol Canol Trefi ym mis Mehefin 2020 a oedd yn cyfuno profiadau ar draws sectorau preifat, cyhoeddus a chymunedol i gefnogi'r gwaith o gyflawni newidiadau cadarnhaol i ganol trefi a dinasoedd Cymru ac i fynd i'r afael â'r problemau roeddent yn eu hwynebu yn ystod pandemig y Coronafeirws. Sefydlodd a defnyddiodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol y Grŵp Gweithredu Gweinidogol

Canol Trefi i weithredu ymateb ar draws Cymru i'r heriau economaidd, cymdeithasol a ffisegol gwirioneddol a wynebir gan ganol trefi o ganlyniad i Covid-19. Mae'r Grŵp yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid allanol yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru o amrywiaeth o bortffolios Gweinidogol a buddiannau polisi canol trefi.

Yn ogystal â'r Grŵp Gweithredu Gweinidogol ar Ganol Trefi, sefydlwyd pedwar is-grŵp rhanbarthol i lywio blaenoriaethau'r Grŵp Gweithredu Gweinidogol Canol Trefi yn y rhanbarthau ac adborth. Roedd y Grwpiau Gweithredu Rhanbarthol Canol Trefi hyn yn cynnwys aelodaeth eang o'r holl ddylanwadwyr a'r actorion rhanbarthol a oedd yn gallu sicrhau newid lleol a rhanbarthol yn ein hamgylcheddau yng nghanol y dref.

Ym mis Medi 2021, cafodd ffocws y Grŵp ei ailffocysu i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o weithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Archwilio Cymru, a goruchwylio'r gwaith o'i roi ar waith: Adfywio Canol Trefi ac adroddiad annibynnol FERL: Small Towns, Big Issues. Adolygodd y Grŵp Gweithredu Gweinidogol Canol Trefi ganfyddiadau adroddiad FERL yn systematig er mwyn eu profi ac, o dan nawdd y Grŵp Gweithredu Gweinidogol Canol Trefi, sefydlodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd dri Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gefnogi'r Grŵp Gweithredu Gweinidogol Canol Trefi drwy ymgymryd â "gwaith ymchwil manwl" i'r argymhellion ac adrodd yn ôl. Roedd ffocws y tri grŵp fel a ganlyn:

- Cymhellion ariannol ar gyfer canol trefi ac anghymhellion ar gyfer y tu allan i drefi.
- Symleiddio cyllid.
- Cynllunio ac ymgysylltu â'r gymuned.

Roedd adborth am waith y grwpiau wedi cael ei roi i'r Grŵp Gweithredu Gweinidogol Canol Trefi erbyn mis Ionawr 2022, ac ym mis Chwefror 2022 sefydlodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd Grŵp Cyflawni Gweinidogol Canol Trefi llai a mwy penodol i fwrw ymlaen â gwaith y grwpiau gorchwyl a gorffen ac i edrych yn fanylach ar y materion a'r rhwystrau a nodir yn yr adroddiadau ac ystyried ymatebion ymarferol. Roedd aelodaeth y Grŵp Cyflawni Gweinidogol Canol Trefi yn cynnwys nifer o weithwyr proffesiynol ym maes adfywio a gweithiodd drwy'r materion a arweiniodd at ddatblygu Datganiad Sefyllfa Canol Trefi.

Mae'r ffordd rydym yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu yn y Datganiad Sefyllfa drwy lywodraethu priodol yn hollbwysig. Byddwn yn sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r camau gweithredu, wedi'u grwpio mewn themâu. Bydd y grwpiau hyn yn cynnwys swyddogion o adrannau Gweinidogol perthnasol yn ogystal â rhanddeiliaid allanol allweddol. Byddwn hefyd yn addasu'r Grŵp Gweithredu Gweinidogol Canol Trefi i fonitro a goruchwylio cynnydd a fydd yn adrodd i Weinidogion yn ôl yr angen.

**Nodyn, gan y tîm trafnidiaeth, ar strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, yng nghyd-destun adfywio canol trefi, gydag arwydd o amserlenni a dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol sy'n ymwneud â'r targedau a osodwyd yn y maes hwn.**

Mae Llwybr Newydd, ein strategaeth drafnidiaeth, yn cydnabod yn gryf y cysylltiadau rhwng adfywio canol trefi a thrafnidiaeth. Mae llawer o'r strategaethau yn ymwneud ag ystyriaethau cynllunio defnydd tir megis:

- lleoli gwasanaethau cyhoeddus newydd, fel cyfleusterau addysg, iechyd a hamdden, yn agos at ble mae pobl yn byw ac at lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus presennol, gan fabwysiadu dull Canol Trefi yn Gyntaf.

- adeiladu gweithleoedd a chartrefi newydd yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus a dylunio datblygiadau newydd i fod yn addas ar gyfer cerdded a beicio o'r cychwyn cyntaf.
- sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer penderfyniadau buddsoddi mewn seilwaith ar draws Llywodraeth Cymru ac mewn cynllunio rhanbarthol.
- gwneud y defnydd gorau posibl o dir sy'n agos at ganolfannau trafnidiaeth gan gynnwys gorsafoedd rheilffordd a phorthladdoedd, fel safleoedd ar gyfer buddsoddi a thwf.

Ein nod yw defnyddio'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol sydd ar y gweill a'r Cynlluniau Datblygu Strategol sydd wedi'u halinio'n ddaearyddol fel llwyfan ar gyfer cynyddu'r cydweithio rhwng timau cynllunio trafnidiaeth a defnydd tir mewn Llywodraeth Leol, ac yn Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru. Bydd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn dechrau cael eu datblygu nawr, a byddant yn barod i'w rhoi ar waith yn 2025.

Rydym hefyd yn gweithio i benodi Grŵp Cynghori annibynnol yn seiliedig ar Leoedd i adolygu'r cysylltiadau rhwng cynllunio trafnidiaeth a defnydd tir a gwneud argymhellion ynghylch sut y gellir gwella ffyrdd o weithio er budd ardaloedd fel adfywio canol trefi.

Mae'r fframwaith monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Strategaeth Drafnidiaeth Cymru wedi'i nodi yma: Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru). Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i olrhain cynnydd er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau uchod sy'n cysylltu'n gryf ag adfywio canol trefi. Mae metrigau penodol a fydd yn cael eu olrhain bob blwyddyn yn cynnwys % y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gael gafael ar wasanaethau yn eu hardal leol, ac amser teithio cyfartalog i wasanaethau addysg, iechyd a hamdden.

**Y meini prawf mesuradwy y byddwch yn eu hystyried, i fonitro a gwerthuso'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ganlyniad i fentrau a strategaethau Llywodraeth Cymru ar adfywio canol trefi. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, Adfywio Canol Trefi yng Nghymru, yn cyd-fynd ag offeryn data cynhwysfawr sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n darparu cyfres o bwyntiau data perthnasol a mynegeion ar gyfer mesur perfformiad yn y maes hwn.**

Cafodd y rhaglen gyllido adfywio flaenorol, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, ei gwerthuso yn 2015, a oedd wedi helpu i lywio'r rhaglen Trawsnewid Trefi bresennol, yn enwedig ei ffocws ar flaenoriaethu buddsoddiad ar gyfer canol trefi a dinasoedd. Dechreuwyd gwerthuso'r rhaglen adfywio Adeiladu ar gyfer y Dyfodol sydd wedi'i llunio i ailddatblygu adeiladau a thir nad ydynt yn cael eu defnyddio yng nghanol trefi a dinasoedd a gerllaw ym mis Rhagfyr 2018. Cafodd Gwerthusiad o Adeiladu ar gyfer y Dyfodol: adroddiad canol tymor | LLYW.CYMRU ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2021. Bydd y gwerthusiad terfynol yn cael ei gwblhau ym mis Medi eleni ar ôl cwblhau'r rhaglen.

Mae rhaglen 'Trefi Smart' Trawsnewid Trefi yn cefnogi'r defnydd o ddata a thechnolegau digidol i helpu busnesau i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hybu gwerthiant ac elw, lleihau costau a chyflymu twf.  Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Rhaglen wedi ymgysylltu â 67 o drefi ac wedi cynhyrchu 24 o astudiaethau achos i sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd yn cael ei rannu. Yn dilyn ymarfer ail-gaffael llawn, bydd Menter Môn yn parhau i gyflawni cam nesaf y Rhaglen Trefi Smart ledled Cymru rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2025. Mae'n ofynnol i'r Rhaglen gyfrannu at unrhyw werthusiad ehangach o'r Rhaglen Trawsnewid Trefi, a fydd yn ystyried yr effeithiau cyffredinol ar ganol trefi drwy fetrigau fel nifer yr ymwelwyr, amser aros, eiddo gwag,

dosbarthiadau defnydd (ee siopau elusen), enghreifftiau o droseddu a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, nifer yr achosion o fannau gwyrdd a nifer y digwyddiadau.  Bydd y Rhaglen Trefi Smart hefyd yn cyd-fynd â chontract cyflawni newydd Busnes Cymru, sy'n cynnwys cymorth digidol i fusnesau, a bydd yn cyfrannu at werthusiadau o'r contract hwnnw yn y dyfodol.


Mae monitro ar lefel cynllun neu brosiect eisoes yn cael ei wneud o fewn y Rhaglen Trawsnewid Trefi. Er enghraifft, mae llyfrgell a chanolfan hamdden newydd yng nghanol tref Castell-nedd eisoes yn cael effaith, gyda ffigurau aelodaeth Canolfannau Hamdden yn cynyddu o 1000 i 2300 ar ôl agor y cyfleuster newydd. Ar ben hynny, mae'r ffigurau ar gyfer y Llyfrgell rhwng 1 Chwefror a 29 Ebrill eleni yn dangos 34007 o ymweliadau – cynnydd o 137% ar yr un cyfnod y llynedd; 23477 o lyfrau wedi'u benthyg – cynnydd o 93% ar yr un cyfnod y llynedd; a dros 3000 yn bresennol mewn digwyddiadau ers 1 Chwefror – cynnydd o 300% ar yr un cyfnod y llynedd.

Mae adeiladau gwag yng nghanol trefi yn fetrig amlwg i'w ystyried. Fel rhan o'n Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i "gefnogi'r gwaith o ddatblygu cofrestr o adeiladau gwag a helpu busnesau bach i symud i siopau gwag." Yn ystod 2023-24, byddwn yn cynnal gwerthusiad o'n cymorth gorfodi eiddo a'r effaith y mae wedi'i chael. Bydd canlyniad y gwerthusiad hwnnw'n sail i ddulliau gweithredu yn y dyfodol.

Byddwn yn cynnal gwerthusiad llawn o'r rhaglen Trawsnewid Trefi, gan gynnwys effeithiolrwydd cynlluniau creu lleoedd. Er nad yw'r union gylch gwaith wedi'i bennu eto, byddwn yn sicrhau ei fod yn seiliedig ar offeryn data'r Archwilydd Cyffredinol ac astudiaethau perthnasol eraill, gan gynnwys yr hyn a ddysgwyd o werthusiadau blaenorol ar elfennau unigol o'r rhaglen. Bydd angen i ni ystyried yn ofalus yr effaith y mae Covid wedi'i chael ar drefi a dinasoedd yng Nghymru wrth gynnal gwerthusiad llawn o'r Rhaglen Trawsnewid Trefi.

Rwy'n ffyddiog y bydd yr wybodaeth hon o werth i chi a'r Pwyllgor yn y maes gwaith hwn. Cofiwch roi gwybod i mi os hoffech gael eglurhad neu wybodaeth ychwanegol.

Yn gywir



**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Eitem 2.3

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

27 Mehefin 2023

Annwyl Ms Rathbone AS

Ar 27 Mai 2022, ysgrifennais atoch yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 3 yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Craffu Blynyddol ar Waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Y wybodaeth ddiweddaraf, gan fod yr argymhelliad yn ymwneud â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. O ran yr honiadau yn yr adroddiad bod Llywodraeth Cymru'n 'dibynnu'n helaeth' ar y Comisiynydd, dywedais y byddai gwaith dadansoddi pellach yn cael ei wneud ac y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda swyddogion y Comisiynydd i ddeall yn well beth yw natur a maint y ceisiadau hyn am gymorth, er mwyn rhoi darlun cliriach o'r sefyllfa a helpu'r Comisiynydd i reoli ei adnoddau.

Yn eich llythyr at y Comisiynydd ar 23 Mawrth 2023, cyfeirir at ganfyddiad 'bod gormod o amser ac adnoddau Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u neilltuo i helpu Llywodraeth Cymru i gymhwyso ei deddfwriaeth ei hun, a hynny ar draul cyrff cyhoeddus eraill'. Felly, roeddwn am achub ar y cyfle hwn i rannu Atodiad A isod, sy'n rhoi dadansoddiad o geisiadau Llywodraeth Cymru am gymorth i swyddfa'r Comisiynydd yn 2021-22. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda swyddogion y Comisiynydd i baratoi'r dadansoddiad hwn ac rwy'n ddiolchgar am y dull cydweithredol sy'n cael ei ddefnyddio gennym o hyd i gryfhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Yn gywir,

Andrew Goodall

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

Copi: Y Prif Weinidog, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

## ATODIAD A: DADANSODDIAD O 'GEISIADAU AM GYMORTH' LLYWODRAETH CYMRU I SWYDDFA COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL

### Y CEFNDIR

Ym mis Mai 2022, yn dilyn sylw'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol bod Llywodraeth Cymru yn 'dibynnu'n helaeth' ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y Dyfodol, mae swyddogion yn yr Is-adran Dyfodol Cynaliadwy wedi gweithio gyda swyddogion y Comisiynydd i ddeall yn well beth yw natur a maint  y ceisiadau hyn gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi darlun cliriach o'r sefyllfa a helpu'r Comisiynydd i reoli ei adnoddau. Mae galw Llywodraeth Cymru ar y Comisiynydd wedi cael ei godi'n gyhoeddus ar sawl achlysur.

**Enghraifft 1**: ar 1 Chwefror 2021, yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y bumed Senedd), dywedodd y Comisiynydd:

> *So, over the last two and a half years, we've had 663 requests for advice from public bodies; 43 per cent of those requests have been from Welsh Government […]*

**Enghraifft 2:** ar 7 Chwefror 2022, yn y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, dywedodd y Comisiynydd:

> *So, in all, we've received, to date, 1,061 requests for support since May 2018 […] The number of requests from public bodies in total is 362 […]. Of those 362, 157 have come solely from Welsh Government. The Welsh Government are one public body out of 44, and yet almost half of all requests for support are coming from Welsh Government and, as I said, often in these big, meaty topics and subject areas.*

**Enghraifft 3:** ar 11 Ebrill 2022, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ei adroddiad *Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: y wybodaeth ddiweddaraf*, a oedd yn nodi:

> *Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu'n helaeth ar swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer cefnogaeth a chyngor o ran y ffordd y caiff y Ddeddf ei hymgorffori yn ei gwaith, ac mae hyn yn golygu bod angen newid diwylliant.*

Roedd argymhelliad 3 yn yr adroddiad yn nodi:

> *Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n defnyddio hyfforddi a datblygu proffesiynol i sicrhau bod ei chyflogeion yn deall y Ddeddf yn llawn ac yn cydymffurfio â hi, fel nad yw'n ymddangos bod angen dibynnu gymaint ar swyddfa'r Comisiynydd.*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Ar 27 Mai 2022, ymatebodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *Mae'r Comisiynydd wedi awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno oddeutu 15% o gyfanswm y ceisiadau a gafwyd gan ei swyddfa ers mis Mai 2018. Mae angen dadansoddi ymhellach i wybod beth yw natur y ceisiadau hyn i weld beth yw'r gwir sefyllfa o ran yr honiadau bod dibyniaeth sylweddol ar y Comisiynydd o du Llywodraeth Cymru, ac i ba raddau y mae'r ceisiadau hyn am gymorth yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth o sut i gydymffurfio â'r Ddeddf. Mae Swyddogion yn gweithio gyda'r Comisiynydd er mwyn deall yn well natur a nifer y ceisiadau hyn a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn creu darlun cliriach o'r sefyllfa a helpu'r Comisiynydd i reoli ei hadnoddau.*

Ar 23 Mawrth 2023, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y Comisiynydd newydd yn ei groesawu i'w swydd newydd. Roedd y llythyr yn cynnwys y geiriad canlynol:

> *Argymhellwyd yn ein hadroddiad, er mwyn cynorthwyo tryloywder y berthynas rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru a chraffu arni, y dylech ystyried sut y mae busnes gyda Gweinidogion yn cael ei gynnal, gan gynnwys sut y caiff cyfarfodydd a negeseuon eu cofnodi a'u datgelu. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r canfyddiad bod gormod o amser ac adnoddau Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u neilltuo i helpu Llywodraeth Cymru i gymhwyso ei deddfwriaeth ei hun, a hynny ar draul cyrff cyhoeddus eraill*.

Ar 24 Ebrill 2023, ymatebodd y Comisiynydd:

> *Yn eich llythyr rydych yn cyfeirio at ganfyddiad bod gormod o amser Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei neilltuo i gefnogi Llywodraeth Cymru er anfantais i gyrff cyhoeddus eraill. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn talu sylw manwl iddo. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud, ar dystiolaeth yr ychydig wythnosau diwethaf nid dyma'r argraff sydd gennyf.*

**DADANSODDIAD**

**Enghraifft 1:** O 2018-19 i 2020-21, derbyniodd swyddfa'r Comisiynydd 268 o geisiadau am gyngor gan gyrff cyhoeddus. Roedd 124 ohonynt gan Lywodraeth Cymru a 144 gan gyrff cyhoeddus eraill.

**Enghraifft 2:** Mae'r ffigur o 157 o geisiadau gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer 2018-19 i 2020-21 (darperir rhagor o wybodaeth yn yr adran ffynonellau gwybodaeth). Yn ystod y cyfnod hwn, roedd ceisiadau Llywodraeth Cymru am gymorth yn cyfateb i oddeutu 15% o'r holl geisiadau am gymorth. Mae'r

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

ffigurau a ddyfynnwyd gan y Comisiynydd yma hefyd yn cynnwys ceisiadau na weithredwyd arnynt gan y swyddfa.

**Enghraifft 3:** Rhoddodd swyddfa'r Comisiynydd wybodaeth o 2021-22 i'r Is-adran Dyfodol Cynaliadwy ynglŷn â cheisiadau Llywodraeth Cymru am gymorth, ceisiadau gan gyrff cyhoeddus eraill am gymorth, a'r holl geisiadau eraill am gymorth. Darparwyd amcangyfrifon o'r ystodau amser sy'n ofynnol i ymateb i'r ceisiadau hyn hefyd, o 'ychydig o amser' (hyd at un awr) i 'aur' (mwy na deg diwrnod). Mae'r tabl isod yn crynhoi'r wybodaeth hon.

Mae *ceisiadau am gymorth* yn amrywio o ymholiadau sylfaenol a cheisiadau am wybodaeth i wahoddiadau i fod yn rhan o brosiectau o bwys. Nid yw'r Comisiynydd yn ymgynghorai statudol ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru ar wahân i ddatblygu dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol, canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac wrth ddiwygio'r rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.

| **Ceisiadau am gymorth i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (2021-22)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ceisiadau am gymorth | Nifer y ceisiadau a ddaeth i law | Nifer y ceisiadau a gafodd eu derbyn* | Yr amser oedd ei angen i ymateb (oriau)** | Adnodd o ran pobl (CALl)*** | Canran yr amser a gymerwyd (%) |
| Llywodraeth Cymru | 49 | 32 | 493.50 | 0.26 | 36 |
| Cyrff cyhoeddus eraill | 84 | 67 | 264.00 | 0.14 | 19 |
| Pob un arall | 239 | 161 | 609.75 | 0.33 | 45 |
| CYFANSWM | 372 | 260 | 1367.25 | 0.73 | 100 |

** Mae hefyd yn cynnwys cofnodion a restrir fel rhai 'gorffenedig', 'ar y gweill', neu'n 'rhan o ffrwd waith'.*
*** Gan gymryd pwynt canol yr ystodau amser a restrir.*
****Gan dybio wythnos waith o 42 awr gyda 38 diwrnod o absenoldeb. (CALl = Cyfwerth ag amser llawn.)*

O ran nifer y 'ceisiadau am gymorth', mae'r dadansoddiad yn dangos, yn 2021-22, bod 12.3% o'r 'ceisiadau am gymorth' y gweithredwyd arnynt wedi dod gan Lywodraeth Cymru, sef 36% o gyfanswm yr ymrwymiad amser oedd ei angen gan swyddfa'r Comisiynydd (0.26 CALl). Mae'n werth nodi bod ymateb i'r ceisiadau hyn yn cyfateb i gyfran fach o amser ac adnoddau pobl swyddfa'r Comisiynydd.

Er mwyn deall natur ceisiadau Llywodraeth Cymru am gymorth yn well, a'r ymatebion a gafwyd gan swyddfa'r Comisiynydd, gofynnwyd am adborth gan bob un o dimau Llywodraeth Cymru a oedd wedi gofyn am ymrwymiad lefel 'efydd' ac yn uwch na hynny

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

gan swyddfa'r Comisiynydd (yn cyfateb i fwy nag un diwrnod o waith) i ddeall natur a phwrpas yr ymgysylltiad â'r Comisiynydd yn well. Cyflwynir crynodeb o'r canfyddiadau hynny isod.

**CASGLIADAU**

- Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau honiadau bod Llywodraeth Cymru yn 'dibynnu'n helaeth' ar y Comisiynydd.

- Gwahoddwyd tîm y Comisiynydd i gymryd rhan mewn prosiectau fel rhanddeiliaid fel rhan o ddulliau cynnwys ac ymgysylltu arferol gan dimau, ac er mwyn gwahodd y Comisiynydd i wneud sylwadau neu i roi'r cyfle iddynt i wneud hynny os ydynt yn dymuno. Gan fod rhyngweithio dwys rhwng llawer o'r darnau hyn o waith a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae cynnwys y Comisiynydd yn benderfyniad rhesymegol, ac mae'r ymgysylltu o fudd i'r ddwy ochr.

- Nid yw'r ceisiadau'n deillio o ddiffyg dealltwriaeth swyddogion o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol .

- Mae'n ymddangos bod amcangyfrifon tîm y Comisiynydd o ben isaf yr amser a gymerwyd yn weddol gywir, er y teimlwyd mewn dau achos bod yr ymrwymiad a awgrymwyd wedi'i chwyddo.

- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn hapus ag ansawdd y mewnbwn a gawsant gan swyddogion y Comisiynydd.

- Mae'r rhan fwyaf o swyddogion Llywodraeth Cymru yn teimlo bod digon o gefnogaeth ar gael o fewn Llywodraeth Cymru i dimau allu cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, er y cydnabuwyd y byddai canllawiau mwy teilwredig o fudd mewn rhai meysydd yn ystod camau cynnar y gwaith o ddatblygu polisi.

- Nid yw'r geiriad 'ceisiadau am gymorth' yn cyfleu'n gywir natur y rhyngweithio rhwng Llywodraeth Cymru a swyddfa'r Comisiynydd. Mewn llawer o achosion, byddai'n fwy priodol galw'r 'ceisiadau' hyn yn 'wahoddiadau i gymryd rhan' – mewn ymgyngoriadau cyhoeddus, er enghraifft.

Fel rhan o'r pum ffordd o weithio sy'n ffurfio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio dulliau amrywiol i gynnwys pobl a rhanddeiliaid (gan gynnwys Comisiynwyr) yn y broses bolisi

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

ac fel bod modd integreiddio gymaint â phosibl â pholisïau a dulliau gweithredu a ddefnyddir yn ehangach ledled Cymru.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad**
**Economy, Treasury and Constitution Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol – Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

29 Mehefin 2023

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu atoch cyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf ynghylch Fferm Gilestone er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau am y sefyllfa ddiweddaraf.

Y Sefyllfa Bresennol a Meithrin Cysylltiadau â'r Gymuned

Wedi'r diwydrwydd dyladwy cychwynnol, rhannodd Gweinidog yr Economi Ddatganiad Ysgrifenedig â'r Senedd ar 17 Mai gan gyhoeddi'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r camau nesaf a ganlyn:

- rhoi mynediad, drwy drwydded, i gynrychiolwyr Gŵyl y Dyn Gwyrdd, fel y gallant gynnal arolygon amgylcheddol ac arolygon eraill sydd eu hangen er mwyn sicrhau'r trwyddedau a'r caniatadau priodol ar gyfer eu cynnig; ac
- i swyddogion ddechrau trafodaethau ffurfiol â Gŵyl y Dyn Gwyrdd ynghylch prydles.

Ynghyd â'r Datganiad Ysgrifenedig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres o Gwestiynau Cyffredin ar wefan Llywodraeth Cymru. Gellir cael gafael arnynt yma. Bwriad y cwestiynau cyffredin hyn yw darparu gwybodaeth swyddogol a chywir ynglŷn â hynt y prosiect i'r gymuned.

Mae cynrychiolwyr Gŵyl y Dyn Gwyrdd hefyd wedi meithrin cysylltiadau yn annibynnol â'r gymuned leol. Mae gwefan Prosiect Gilestone Farm wedi'i lansio sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y cynllun busnes. Mae taflenni sy'n hyrwyddo'r wefan a'i gwybodaeth wedi'u dosbarthu i bob eiddo yn yr ardal leol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE



Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

Bydd gweithgareddau pellach o ran ymwneud â'r gymuned leol yn cael eu cyd-drefnu gan y Cyngor Cymuned fel y sefydliad sydd â'r ymddiriedaeth ddemocrataidd i gynrychioli'r preswylwyr. Yn dilyn penodi Cadeirydd a Chlerc newydd, mae'r trefniadau yn cael eu trafod ar hyn o bryd a byddant yn cael rhagor o sylw dros yr wythnosau nesaf.

Y camau nesaf

Unwaith y bydd y camau nesaf a amlinellir uchod wedi'u cwblhau, bydd gwaith asesu pellach yn cael ei gynnal gan swyddogion yn seiliedig ar y canfyddiadau. Bydd hyn yn cynnwys cynnal asesiad gan ddefnyddio'r Model Fusnes Pump Achos yn ogystal ag ystyried unrhyw faterion penodol ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu. Bydd yr allbynnau o'r ymarferion hyn yn cael eu hadolygu gan grŵp o uwch-swyddogion annibynnol a'r Tîm Arwain Eiddo (dim ond manylion y trafodiad eiddo y bydd y tîm hwn yn eu hystyried). Bydd unrhyw gyngor neu argymhellion dilynol yn cael eu hystyried gan swyddogion arweiniol a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, fel y bo'n briodol, cyn y cyflwyniad terfynol.

Wedi hyn, bydd Gweinidogion yn cael arfarniad llawn a therfynol o'r opsiynau ynghylch y defnydd posibl o Gilestone Farm yn y dyfodol a hynny er mwyn eu galluogi i ddod i benderfyniad.

Amserlen


Mae Tenantiaeth Busnes Fferm yn ei lle ar delerau masnachol hyd at fis Hydref 2023. Mae'r Denantiaeth Busnes Fferm hon yn sicrhau:

- rheolaeth briodol o'r safle yn y cyfamser;
- digon o amser i gynnal asesiad cychwynnol ar gynllun busnes Gŵyl y Dyn Gwyrdd; ac
- incwm ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru ar y safle.

Pan fydd y gwaith diwydrwydd dyladwy wedi cael ei gwblhau, cyflwynir arfarniad llawn o'r opsiynau terfynol i Weinidogion eu hystyried.

Gyda chofion gorau.

Yn gywir



**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon